GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business Park, St Asaph, LL17 0JG

Mark Isherwood AS/MS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

Chair - Public Accounts and Public Administration Committee
Senedd/Welsh Parliament

SeneddPAPA@senedd.cymru

**Ein cyf / Our ref:** CE25-0504
**☎:** 01745 448788 ext 6382
**Gofynnwch am / Ask for:** Emma Hughes
**E-bost / Email:** [redacted]
**Dyddiad / Date:** 31/07/2025

Annwyl Mark,

Yn eich rhinwedd fel Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, hoffem roi diweddariad i chi ar y materion cyfrifyddu a ddigwyddodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2021/2022.

Byddwch yn cofio ein bod wedi rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y mater hwn yn flaenorol trwy ohebiaeth ysgrifenedig a thystiolaeth a ddarparwyd mewn person mewn sesiwn breifat. Bu i ni ymrwymo i'ch diweddaru.

Mae'r bwrdd iechyd heddiw yn trafod adroddiad cryno terfynol ar y mater hwn, y cyd-destun, pwyntiau dysgu a dynnwyd allan a'r camau a gymerwyd. Mae hyn er mwyn darparu tryloywder ac atebolrwydd ac i sicrhau dysgu, gyda mesurau ar waith i ddiogelu na fydd materion o'r fath yn digwydd yn y dyfodol. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar ein Gwefan yma.

Roedd hwn yn amlwg yn fater difrifol a chymhleth ac mae ystod eang o adolygiadau, ymchwiliadau a phrosesau eraill wedi'u cynnal o ganlyniad.

Mae'n bwysig nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth o dwyll wedi'i chanfod trwy ymchwiliadau gan Wasanaeth Atal Twyll Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.
Mae’r adroddiad a gyflwynwyd heddiw yn dangos y dysgu a'r camau gweithredu ac yn

Dear Mark,

In your capacity as Chair of the Senedd Public Accounts and Public Administration Committee we wish to update you on the accounting issues which occurred in Betsi Cadwaladr University Health Board in 2021/2022.

You will recall that we have previously provided the Committee with information about this matter through written correspondence and evidence provided in attendance at private session. We committed to keep you updated.

The health board is today discussing a final summary report on this matter, the context, learning points drawn out and the action taken. This is to provide transparency and accountability and to ensure learning, with measures in place to safeguard that such matters do not happen in future. You can read the report on our website here.

This was clearly a serious and complex matter and a wide range of reviews, investigations and other processes have been undertaken as a result.

It is important to note that no evidence of fraud was found through the work undertaken by Counter Fraud Wales and North Wales Police.
The report presented today demonstrates the learning and actions implemented and clearly

dangos yn glir bod systemau, diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach bellach ar waith. Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamwys (barn wir a theg) ar y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

Mae cyrff allanol, trwy amrywiol adroddiadau a sicrwydd, wedi cydnabod y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys llywodraethu ariannol a chorfforaethol cryfach, sydd wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni perfformiad ariannol cryf, gan leihau ei orwariant a rhagori ar darged Llywodraeth Cymru a osodwyd ar gyfer 2024-25.
Rydym hefyd yn falch bod Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ein hymrwymiad i adeiladu diwylliant o fod yn agored gyda thryloywder ar draws pob maes o'n sefydliad.

Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu cefnogi gan arweinyddiaeth gryfach ar lefel y Bwrdd, yn dilyn recriwtio llwyddiannus Cadeirydd newydd, Is-gadeirydd, Aelodau Bwrdd Annibynnol, Prif Weithredwr parhaol, ac aelodau newydd o'r Tîm Gweithredol.

Rydym yn croesawu'r diddordeb y mae'r Pwyllgor wedi'i gymryd hyd yma ynglŷn â'r mater hwn, a gobeithio y byddwch yn gweld cynnwys yr adroddiad yn ddefnyddiol.

demonstrates that there are now strengthened systems, culture, and leadership in place. Audit Wales has issued an unqualified audit opinion (a true and fair view) on the Annual Accounts for the last two financial years.

External bodies, through various reports and assurances, have recognised the progress made by the Health Board. This includes strengthened Financial and Corporate Governance, which has enabled the Health Board to deliver strong financial performance, reducing its overspend and exceeding the Welsh Government target set for 2024-25.
We are also pleased that both Audit Wales and Welsh Government have recognised our commitment to building a culture of openness and transparency across all areas of our organisation.

These improvements are being supported by strengthened leadership at Board level, following the successful recruitment of a new Chair, Vice-Chair, Independent Board Members, a substantive Chief Executive, and new Executive Team members.

We welcome the interest the Committee has taken to date around this matter, and hope you will find the contents of the report helpful.

Yn gywir / Yours sincerely,

**Dyfed Edwards**
**Chair/Cadeirydd**

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr/Chief Executive**